Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a Rhagolwg – Protocol rhwng

Tachwedd 2018

Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a Rhagolwg – Protocol

Mae'r ddogfen hon, y mae Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru wedi cytuno arni, yn cynnwys protocol ynghylch y ffordd y byddwn yn dod ynghyd er mwyn paratoi rhestr o gymwysterau i'w cynnwys ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ("y Rhestr").

Mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:

- Partïon
- Cyd-destun
- Egwyddorion Cyffredinol y Protocol
- Trosolwg o'r Trefniadau
- Adolygiad o'r Trefniadau
- Deddfwriaeth Hawliau Rhannu Gwybodaeth
- Cysylltiadau Allweddol
- Cytundeb
- Llofnodwyr

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Dogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru a lofnodwyd ar 6 Awst 2015 gan Lywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru.

Partïon

Llywodraeth Cymru - Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru.

Cymwysterau Cymru – Rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau nad ydynt yn raddau, yng Nghymru, a sefydlwyd drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Cefndir a chyd-destun

1. Mae Dogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru yn nodi'r fframwaith eang y mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu oddi mewn iddo ac yn nodi'r telerau ac amodau y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth grant i Cymwysterau Cymru gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn unol â hwy.

2. Un o'r gofynion yn y Fframwaith yw '*Bydd angen i Gymwysterau Cymru weithio gyda Gweinidogion Cymru i flaenoriaethau'r cymwysterau a gymeradwyir o ran eu pwysigrwydd i ddysgwyr a chyflogwyr*'[1].

3. O ystyried rhyngddibyniaeth cymwysterau a'r cwricwlwm, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn cydweithio er mwyn llywio'r system gymwysterau genedlaethol i Gymru.

4. Y Rhestr yw'r ffordd y mae Cymwysterau Cymru yn cyfleu pa gymwysterau neu fathau o gymwysterau a gaiff eu blaenoriaethu i'w cymeradwyo[2].

5. Mae Adran 13 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddau barti gyhoeddi'r Rhestr[3]. Dogfen yw'r Rhestr sy'n nodi'r cymwysterau y cytunwyd rhoi blaenoriaeth iddynt ar adeg benodol.

6. Bydd Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru yn dod ynghyd i drefnu bod y Rhestr yn cael ei chyhoeddi ar y cyd ac wrth wneud hynny byddwn yn sicrhau y rhoddir y flaenoriaeth gywir i gymwysterau gael eu cymeradwyo a bod y Rhestr yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol y ddau barti. Mewn perthynas â hyn, bydd gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae i bennu, ar lefel strategol, y cymwysterau blaenoriaethol yng Nghymru, ynghyd â sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau rheoleiddiol yn cael ei gwahanu oddi wrth y llywodraeth, fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015.

7. Mae'r protocol hwn yn disgrifio'r trefniadau a roddir ar waith er mwyn cyhoeddi Rhestr ac yna'i hadolygu a'i diwygio yn amserol.

---

[1] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cymwysterau-cymru-dogfen-fframwaith_0.pdf
[2] Bydd y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol yn cynnwys cymwysterau sydd wedi cyrraedd camau datblygu a chymeradwyo amrywiol.
[3] https://www.qualificationswales.org/media/3508/180705pql-list-and-forward-look-final-w.pdf

Egwyddorion Cyffredinol y Protocol

8. Nod y protocol hwn yw amlinellu sut y bydd y ddau barti yn cydweithio er mwyn gwneud y canlynol:
   i. cyhoeddi Rhestr a'i hadolygu'n rheolaidd ac yn amserol;
   ii. nodi, trafod a chytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer cymeradwyo cymwysterau,
   iii. rhoi gwybod i'w gilydd am ddatblygiadau a allai arwain at adolygu neu ddiwygio'r Rhestr.

9. Gellir cynnwys cymhwyster ar y Rhestr "pan fydd Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod sicrhau a chynnal hyder y cyhoedd yn y cymhwyster yn flaenoriaeth i Cymwysterau Cymru, oherwydd arwyddocâd y cymhwyster gan roi sylw i anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru"[4].

10. Drwy wneud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod annibyniaeth Cymwysterau Cymru a'i ddyletswyddau statudol fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r ystyriaethau a amlinellir ym mharagraffau 11-16.

11. Bydd Cymwysterau Cymru yn mabwysiadu dull gweithredu "Rhagolwg" o nodi cymwysterau a allai gael eu cynnwys ar y Rhestr yn ddiweddarach. Gwneir hyn o leiaf dri mis cyn y caiff Rhestr a Rhagolwg eu cyhoeddi.

12. Gall y broses o ddatblygu a chomisiynu cymwysterau, yn ogystal â'r broses gymeradwyo, gymryd cryn amser, ac felly mae angen llawer o flaengynllunio, pryd bynnag y bo'n bosibl rhagweld gofynion o'r fath yn y dyfodol.

13. Bydd y Rhagolwg yn ein galluogi i ddatblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau hyn yn gynnar, a gallai roi gwybod i gyrff dyfarnu am flaenoriaethau tebygol ar gyfer y dyfodol. Bydd y dull gweithredu hwn hefyd yn rhoi digon o amser i flaengynllunio er mwyn trafod diwygiadau â swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru a cheisio cymeradwyaeth gan Fwrdd Cymwysterau Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

14. At ddibenion adran 13 o'r Ddeddf, nid yw'r Rhagolwg yn rhan o'r Rhestr, ac felly ni chaiff ei baratoi ar y cyd. Fodd bynnag, bydd Cymwysterau Cymru yn gwahodd Llywodraeth Cymru i roi sylwadau ar y broses o ddatblygu'r Rhagolwg bob chwe mis ac fel rhan o drafodaethau rheolaidd ar flaenoriaethau, er mwyn rhannu safbwyntiau ar gymwysterau blaenoriaethol yn y dyfodol y gellid eu cynnwys yn y Rhagolwg.

[4] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/part/4/crossheading/cymwysterau-blaenoriaethol/enacted/welsh

15. Gall Cymwysterau Cymru benderfynu ei bod yn ddymunol cyfyngu ar nifer y mathau o'r cymhwyster a gaiff eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru. Lle y caiff cyfyngiadau o'r fath eu gosod (neu dan ystyriaeth ar gyfer cyfyngiad), bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu Llywodraeth Cymru o'r cymwysterau a gaiff eu cynnwys yn yr adran hon o'r Rhestr.

16. Lle y caiff cymwysterau eu symud o un rhan o'r Rhestr i un arall er mwyn adlewyrchu diwedd unrhyw gyfnodau o gymeradwyo blaenoriaethol, bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu Llywodraeth Cymru o'r cymwysterau a gaiff eu cynnwys yn y rhan hon o'r Rhestr cyn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o'r Rhestr.

Trosolwg o'r Trefniadau

17. Mae'r protocol yn cynnwys tair rhan yn gyffredinol: y gyntaf yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w gilydd a datblygu syniadau; yr ail yw drafftio diwygiadau i'r Rhestr a cheisio cytundeb gan ddau barti arnynt; ac, yn olaf, cydgyhoeddi Rhestr ddiwygiedig. Mae Ffigur 1 yn nodi camau'r trefniadau.

Ffigur 1



18. Bydd y ddau barti yn **trafod** yn rheolaidd gyda'r bwriad o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w gilydd am ddatblygiadau polisi a datblygiadau yn y system gymwysterau a allai arwain at oblygiadau i'r Rhestr.

19. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r Rhestr drwy'r amser gyda'r nod o flaengynllunio er mwyn nodi blaenoriaethu a datblygiadau newydd mewn da

bryd er mwyn nodi cyfleoedd i ddiwygio'r Rhestr. Oherwydd canfyddiadau o waith ymchwil, monitro, adolygiadau sector neu ffynonellau eraill, efallai y bydd angen i Cymwysterau Cymru adolygu'r Rhestr.

20. Gallai Llywodraeth Cymru hefyd nodi'r posibilrwydd o ddiweddaru'r Rhestr a gall gysylltu â Llywodraeth Cymru er mwn trafod adolygiad posibl.

21. Gellir **adolygu'r** Rhestr unrhyw bryd er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i gynllunio yn ogystal ag i ymateb i flaenoriaethau a datblygiadau newydd wrth iddynt godi. Bydd angen i'r ddau barti gyfarfod unwaith y flwyddyn o leiaf er mwyn adolygu'r Rhestr.

22. Wrth i flaenoriaethau neu ddatblygiadau godi yn y system, ac wrth i gymwysterau neu flaenoriaethau newydd gael eu nodi, caiff gwaith cychwynnol ei wneud gan Cymwysterau Cymru i **ddatblygu'r** meysydd blaenoriaeth ymhellach.

23. Bydd Cymwysterau Cymru yn mynd ati i ddiwygio'r Rhestr a bydd yn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ei thrafod. Pan fydd y ddau barti wedi cytuno ar y ddogfen, bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg **gymeradwyo** a bydd Cymwysterau Cymru yn trefnu i'w Fwrdd gymeradwyo'r blaenoriaethau.

24. Pan fydd cymeradwyaeth wedi'i chael gan y ddau barti, gwneir trefniadau i gyhoeddi'r Rhestr ddiwygiedig gyda'i gilydd.

Adolygiad o'r Trefniadau

25. Bydd y partïon yn adolygu'r protocol hwn fel y bo'n briodol.

Deddfwriaeth Hawliau Gwybodaeth

26. Wrth rannu gwybodaeth â'n gilydd, byddwn bob amser yn gweithredu yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Cysylltiadau Allweddol

27. Mae'r prif bwyntiau cyswllt mewn perthynas ag unrhyw weithgarwch cyfathrebu sy'n ymwneud â'r Rhestr yn y ddau sefydliad fel a ganlyn:
    a. Llywodraeth Cymru – Uned Noddi Cymwysterau Cymru

b. Cymwysterau Cymru
Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol
(rheolaethgorfforaethol@cymwysteraucymru.org)
Pennaeth Datblygu a Chomisiynu
(developmentandcommissioning@qualificationswales.org)

Cytundeb

28. Mae Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y protocol hwn.

Atodiad 2 – Rolau a Chyfrifoldebau

Cymwysterau Cymru

Rôl	Cyfrifoldebau
Bwrdd Cymwysterau Cymru	• Cytuno ar gynnwys y Rhestr a'r Rhagolwg a'u hanfon at yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cadeirydd	• Cytuno ar gynnwys y Rhestr a'r Rhagolwg (drwy gyfranogiad ar y Bwrdd) a llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg; • Adolygu ac, wrth lofnodi cynnwys y llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, amgáu'r Rhestr a'r Rhagolwg.
Prif Swyddog Gweithredol	• Cytuno ar gynnwys y Rhestr a'r Rhagolwg drafft, a'r llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg cyn iddo gael ei rannu â'r Uned Noddi (ar y cyd â Chadeirydd y Bwrdd); • Cymeradwyo'r fersiwn derfynol o'r Rhestr a'r Rhagolwg a'r llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i gael eu hanfon i Fwrdd Cymwysterau Cymru i'w cymeradwyo; • Cymeradwyo cynnwys yr ohebiaeth i gyrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill.
Y Bwrdd Rheoli	• Lle y bo'n briodol, adolygu'r Rhestr a'r Rhagolwg drafft a rhoi sylwadau arnynt.
Tîm Datblygu a Chomisiynu	• Sefydlu trafodaethau mewnol drwy'r Grŵp Polisi/ Bwrdd Cyflawni'r Strategaeth Cymwysterau Cyffredinol/ Bwrdd Cyflawni'r Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol a/neu'r Bwrdd Rheoli ar gymwysterau i gael eu cynnwys ar y Rhestr a'r Rhagolwg; • Drafftio'r Rhestr a'r Rhagolwg; • Drafftio'r llythyr ategol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg; • Ymgorffori newidiadau a/neu ychwanegiadau a awgrymir gan yr Uned Noddi i'r Rhestr a'r Rhagolwg drafft, a'r llythyr drafft; • Drafftio ac adolygu testun ategol ar wefan Cymwysterau Cymru a chysylltu â'r Tîm Cyfathrebu er mwyn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol;

	• Paratoi gohebiaeth i gyrff dyfarnu a chysylltu â'r Tîm Cyfathrebu er mwyn sicrhau y caiff y rhain eu hanfon neu eu cyhoeddi; • Monitro'r Rhestr er mwyn sicrhau y caiff ei diweddaru yn amserol, a hysbysu'r Uned Noddi o'r wybodaeth ddiweddaraf; • Cydlynu gweithgareddau eraill sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion y protocol hwn.
Llywodraethu Corfforaethol	• Cynnal trafodaethau â'r Uned Noddi (neu swyddogion priodol eraill Llywodraeth Cymru) ar gynnwys y Rhestr a'r Rhagolwg drafft, a'r llythyr draft at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg; • Cyfleu'r newidiadau a/neu ychwanegiadau a awgrymir gan yr Uned Noddi i'r Rhestr a'r Rhagolwg drafft, a'r Llythyr drafft; • Anfon y Rhestr a'r Rhagolwg drafft, gyda'r llythyr drafft, i'r Uned Noddi i'w hadolygu; • Anfon y llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, wedi'i lofnodi gan y Cadeirydd, gan amgáu'r Rhestr a'r Rhagolwg.
Grŵp Polisi/ Bwrdd Cyflawni'r Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol/ Bwrdd Cyflawni'r Strategaeth Cymwysterau Cyffredinol	• Lle y bo'n briodol, dylai'r aelodau hwyluso trafodaethau ar gymwysterau y dylid eu cynnwys ar y Rhestr a'r Rhagolwg a chyfrannu atynt.
Cyfathrebu	• Gwneud newidiadau i'r testun ar wefan Cymwysterau Cymru, fel y darparwyd gan y Tîm Datblygu a Chomisiynu er mwyn myfyrio a chyhoeddi fersiwn newydd o'r Rhestr a'r Rhagolwg; • Lanlwytho'r fersiwn newydd o'r Rhestr a'r Rhagolwg, wedi'u cymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Chadeirydd Cymwysterau Cymru, i wefan Cymwysterau Cymru; • Anfon gohebiaeth i gyrff dyfarnu er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r fersiwn newydd o'r Rhestr a'r Rhagolwg.

Llywodraeth Cymru

Rôl	Cyfrifoldebau
Uned Noddi Llywodraeth Cymru	• Cynnal a chydlynu trafodaethau â'r Prif Weithredwr/Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol ar gynnwys y Rhestr a'r Rhagolwg drafft, a'r llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg; • Rhoi sylwadau ar ran Llywodraeth Cymru ar gynnwys y Rhestr a'r Rhagolwg drafft; • Cydlynu'r broses o gymeradwyo'r Rhestr ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. • Sicrhau bod y fersiwn newydd o'r Rhestr a'r Rhagolwg, wedi'u cymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Chadeirydd Cymwysterau Cymru, yn cael ei lanlwytho i wefan Llywodraeth Cymru.
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg	• Cymeradwyo'r cymwysterau i gael eu cynnwys ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol.